



Datganiad i'r cyfryngau  
Dydd Iau, 13eg Ionawr  
I'w ryddhau ar unwaith

## Wyth o Ffilmiau Cymreig yn dod i Sinemau yn 2022

O'r ffilm arswyd Gymraeg, Gwledd, wedi ei lleoli yn Eryri, i'r gymuned drawsrywiol yn Dehli Newydd yn y ddogfen Hijra – mae wyth ffilm eclectig yn cyflwyno doniau a straeon Cymreig ar y sgrin fawr yn 2022.

Mae'r wyth ffilm yn cynnig cyfle i gynulleidfaeodd ddarganfod rhywbeth newydd am Gymru, o straeon Cymreig lleol anadnabyddus fel y frwydr i achub sinema'r Lyric yng Nghaerfyrddin (Save the Cinema), i straeon byd-eang Cynghrair Genedlaethol Affrica sydd yn cael eu hadrodd drwy lygaid Cymry fel Gordon Main a John Giwa-Amu (London Recruits).

Drwy eu llinyn Gwnaethpwyd yng Nghymru mae Canolfan Ffilm Cymru (FHW) yn gweithio gyda dosbarthwyr, sinemau Cymru a gwyliau ffilm i hyrwyddo'r ffilmiau i gynulleidfaeodd ehangach.

### Dywedodd Hana Lewis, Rheolwraig Strategol Canolfan Ffilm Cymru:

*"Mae'r ffilmiau hyn yn dangos bod digon i'w ddarganfod am fywyd yng Nghymru, y tu hwnt i'n tirwedd gwledig. Mae gan wneuthurwyr ffilm Cymreig straeon sydd yn arwyddocaol yn fyd-eang i'w hadrodd sydd yn gallu ysbrydoli talent newydd a chynulleidfaeodd lleol. Drwy Gwnaethpwyd yng Nghymru mae gennym gyfle i ystyried sut y gall y ffilmiau a wnaethpwyd yn ein gwlad roi llais byd eang inni ac adeiladu'r diwydiant ffilm o'n cwmpas. Mae rhagor o ymwybyddiaeth o'r ffilmiau yma yn gallu bod yn fuddiol i'n synnwyr o gymuned a hunaniaeth diwylliannol."*

Mae Cymru yn lle cynyddol gyffrous ar gyfer ffilm, gyda sgrptiau yn denu actorion fel Rebel Wilson (The Almond and the Seahorse) a Samantha Morton (Save the Cinema) i rolau amlwg a dim ond rhai o'r teitlau a ragwelwyd yn 2021 ydy'r rhain. Fe wnaeth FHW olrhain a chefnogi 27 o ffilmiau gyda chysylltiadau Cymreig rhwng 2019 a 2021.

Wrth i leoliadau weithio i adfer o'r pandemig – mae nifer o wneuthurwyr ffilm yn gobeithio y bydd cynulleidfaeodd yn mynd i weld y ffilmiau yma ar y sgrin fawr fel y bwriadwyd.

### Dywedodd Roger Williams, awdur Gwledd:

*"Pe byddem yn ddigon eofn ynghylch adrodd ein straeon ar y sgrin fawr, fawr yma, galleu adeiladu'r math o ddiwylliant lle nad ydy hi'n anarferol gweld ffilmiau Cymraeg yn ein sinemau."*

### Ychwanegodd Delphine Lievens, Pennaeth Dosbarthu yn Bohemia Media:

*"Rydym yn falch o gyflwyno Donna i gynulleidfaeodd ar draws y DU yn ddiweddarach eleni. Mae Donna yn ffigur unigryw ac ysbrydoledig ac mae'n cael ei phortreadu mor gywir gan y tîm o wneuthurwyr ffilm Cymreig talentog y tu ôl i'r ffilm."*

Gall cynulleidfaeodd dderbgyn y newyddion diweddaraf am ffilmiau i ddod ar [wefan adran Gwnaethpwyd yng Nghymru Canolfan Ffilm Cymru](#) neu trwy ddilyn @FilmHubWales ar y cyfryngau cymdeithasol.

Mae Gwnaethpwyd yng Nghymru yn cynnig lluo o weithgareddau gydol y flwyddyn mewn partneriaeth gydag arddangoswyr Cymreig, gyda'r nod o hyrwyddp ffilmau Cymreig i gynulleidfaoedd, yn cynnwys [catalog ffilmau](#) gyda dros 1000 o ffilmau byr a ffilmau gyda chysylltiadau Cymreig.

Mae Gwnaethpwyd yng Nghymru yn bodoli diolch i gyllid gan Cymru Creadigol a chyllid Loteri Cenedlaethol gan BFI (Sefydliad Ffilmau Prydeinig) drwy ei Rwydwaith Cynulleidfa Ffilm (FAN). Mae Canolfan Ffilm Cymru yn datblygu cynulleidfaoedd ar gyfer ffilmau Prydeinig annibynnol a ffilmau rhyngwladol dryw gydol y flwyddyn – gweinyddir cyllid yng Nghymru gan Ganolfan Ffilm Cymru drwy Chapter fel y Corff Arweiniol Canolfannau Ffilm.

Caiff dros 30M ei godi bob wythnos ar gyfer achosion da ar draws y DU gan y Loteri Cenedlaethol.

**-Diwedd-**

**Am ragor o wybodaeth cysylltwch gyda:**

Radha Patel, Swyddog Gwnaethpwyd yng Nghymru ar [radha@filmhubwales.org](mailto:radha@filmhubwales.org)

Lisa Nesbitt, Swyddog Datblygu, ar 02920 311 067 / [lisa@filmhubwales.org](mailto:lisa@filmhubwales.org)

Hana Lewis, Rheolwraig Strategol, ar 02920 353 740 / [hana@filmhubwales.org](mailto:hana@filmhubwales.org)

## **Ffilmau Cymreig 2022:**

### **[Save the Cinema](#)**

**Dyddiad Rhyddhau: 14 Ionawr 2022**

**Cert: 15**

Mae Liz, mam i dri, yn rhedeg yr opera ieuenctid lleol yn Theatr y Lyric. Ond mae gan ei chyn gyd-ddisgybl, bellach yn Faer, Tom (sydd yn dal i gofio ei bod wedi ei wrthod pan yn ifanc) gynlluniau i elwa drwy ddymchwel y Lyric a'i droi'n ganolfan siopa.

**Cysylltiad Cymreig:** Yn seiliedig ar stori wir am Liz Evans a lansiodd ymgyrch i achub Theatr y Lyric yng Nghaerfyrddin.

**Lle y gallwch ei gweld?**

- [Canolfan Gelfyddydau Aberystwyth](#) (14 - 21 Ionawr)
- [Cellb, Blaenau Ffestiniog](#) (14 - 17 Ionawr)
- [Chapter, Caerdydd](#) (21 - 28 Ionawr)
- [Kinokulture, Croesoswallt](#) (14 - 17 Ionawr)
- [Neuadd Gwyn, Castell-Nedd](#) (14 - 21 Ionawr)
- [Neuadd Gyhoeddus Brynamman](#) (14 - 21 Ionawr)
- [Pontio, Bangor](#) (14 - 20 Ionawr)
- [Premiere Cinemas, Caerdydd](#) (14 - 21 Ionawr)
- [Reel Cinema, Port Talbot](#) (14 - 20 Ionawr)
- [Showcase Cinema, Caerdydd](#) (Nantgarw) (14 Ionawr)
- [Taliesin Abertawe](#) (17 Ionawr)
- [Theatr Gwaun, Abergwaun](#) (14 - 16 Ionawr)
- [Theatr y Lyric, Caerfyrddin](#) (14 - 28 Ionawr)
- [Theatr Mwldan](#) (14 - 18 Ionawr)
- [The Savoy Theatre, Trefynwy](#) (14 - 20 Ionawr)
- [The Torch, Abewrdaugleddau](#) (28 Ionawr -1 Chwefror)
- [Wyeside Arts Centre, Llanfair ym Muallt](#) (14 - 18 Ionawr)

### **[Rebel Dykes](#)**

**Dyddiad Rhyddhau: 24 Tachwedd 2021**

**Cert: 18**

Ffilm animeiddio boeth, pyni, rhywiol, archif prin heb ei weld o'r blaen a chyfweliadau newydd yn adrodd stori sîn radical, sgwatwyr, clybiau nos BBSM, raliau gwrth Thatcher, protestiadau yn hawlio gweithredu ar AIDS a chysylltiadau clos teuluoedd dewisedig.

**Cysdwilt Cymreig** : Cyfarwyddo gan Siân Williams a Harri Shanahan

**Lle y gaqllwch ei weld?**

- [Pontio, Bangor](#) (10 Chwefror)
- [Magic Lantern, Tywyn](#) (12 Chwefror)

**Gwledd**

**Dyddiad Rhyddhau: 3ydd Mehefin 2022**

**Cert: TBC**

Ffilm arswyd Gymraeg am deulu cyfoethog yn cael parti yn eu cartref yn Eryri, yn croesawu dyn busnes lleol a ffermwyr sydd yn gobeithio creu dêl fusnes. Mae merch ifanc yn cyrraedd i weini ar y teulu ac mae pethau'n dechrau digwydd.

**Cysylltiad Cymreig:** Awdur Roger Williams a Chyfarwyddwr Lee Haven Jones gyda chast o sêr Cymru yn cynnwys Annes Elwy, Nia Roberts a Julian Lewis Jones.

**The Phantom of the Open**

**Dyddiad Rhyddhau: 15 Ebrill 2022**

**Cert: 12A**

Stroi wir anhebygol Maurice Flitcroft, a lwyddodd i chwarae'r rownd waethaf yn hanes Pencampwriaeth Golff Agored ym 1976.

**Cysylltiad Cymreig:** Cyfarwyddwr Craig Roberts

**Donna**

**Dyddiad Rhyddhau: Yn hwyr yn 2022**

**Cert: TBC**

Mae bywyd ym mariaau trefi yn bell o fagwraeth crefyddol Donna yn San Jose; nawr yn ei saithdegau dydy ei theulu erioed wedi ei gweld mewn ffrog. Mae Donna yn cael cyfle i gyd-ysgrifennu drama am bennod sydd wedi ei anwybyddu yn hanes queer, sef Terfysg Compton's Cafeteria, lle y safoidd menywod trawsrywiol roedd Donna yn eu hadnabod yn erbyn aflonyddwch yr heddlu. Mae'n ysgrifennu cymeriad i'w chwarae gan actifydd trawsrywiol ifanc. Wedi derbyn canmoliaeth am ei gwaith a gyda hyder oddi wrth ei ffrindiau newydd mae'n mynd allan o'r ddinas i gyfarfod ei chwaer Gloria.

**Cysylltiad Cymreig:** Cyfarwyddwr Jay Bedwani a chynhyrchwyd gan y cwmni cynhyrchu o Gymru , Truth Department.

**Hijra**

**Dyddiad Rhyddhau: TBC**

**Cert: TBC**

Mae'r daith hynod o bersonol ac emosiynol yma a ffilmwyd dros 6 mlynedd yn nodi poen a balchder Rudrani Chettri a chymuned trawsrywiol Delhi Newydd wrth iddyn nhw greu asiantaeth fodel trawsrywiol gyntaf yn India. Fel nifer yn y gymuned trawsrywiol mae Rudrani a'i modelau yn cael eu gwrthod gan eu teuluoedd, yn cael eu gorfodi i fyw a gweithio ar y stryd, eu curo a'u treisio. Ac eto er gwaethaf popeth mae Rudrani yn dod yn actifydd traws enwocaf Delhi gan lansio'r asiantaeth dan sylw dwys y cyfryngau cenedlaethol a rhyngwladol.

**Cysylltiad Cymreig:** Cyfarwyddwyd gan Ila Mehrotra-Jenkins sydd wedi'i lleoli yng Nghymru

## London Recruits

**Dyddiad Rhyddhau: 2022**

**Cert: TBC**

Ffilm ddogfen ydy London Recruits am grŵp o ddynion a menywod ifanc a fun gweithredu ar ran Cynghrair Genedlaethol Affrica (ANC) yn ystod apartheid yn Ne Affrica. Mae'r stori wir a gadwyd yn gyfrinach am 40 mlynedd yn adrodd eu rhan yn y frwydr hir am ryddid.

**Cysylltiad Cymreig:** Cyfarwyddwr Gordon Main, Cynhyrhydd: John Giwa-Amu, Cynhyrhydd Gweithredol: Peter Edwards.

## The Almond and The Seahorse

**Dyddiad Rhyddhau: 2022**

**Cert: TBC**

Beth sydd yn digwydd pan rydych yn cael ei gorchfygu gan amser – eich cof yn cael ei ddileu, perthnasau yn diflannu? Mae'r ffilm ddoniol, ingol yma yn dilyn dau gwpl wrth iddyn nhw ddod i delerau gyda canlyniadau damweiniau trawmatig a sut maen nhw'n llywio llwybrau newydd ymlaen yn eu bywydau. Mae Sarah (Rebel Wilson) yn archeolegydd, yn poeni y bydd ei phartner, Joe (Celyn Jones) yn ei anghofio wrth i'w gof fynd ag ef i gyfeiriad newydd. Ar yr un pryd mae, Gwen (Trine Dyrholm) ynghlwm mewn cyfnod mewn amser lle mae'r wyneb yn y drych yn anghyfarwydd a lle mae person dieithr wrth y drws yn honni ei fod yn bartner iddi., Mae Toni (Charlotte Gainsbourg). Doctor Falmer (Meera Syal) yn gwrthod ildio ac yn benderfynol o'u hatal rhag datgymalu.

**Cysylltiad Cymreig:** Cyfarywddwr/Awdur, Cerddoriaeth: Gruff Rhys, Cwmni Cynhyrchu: Mad as Birds, Lleoliad – wedi'i saethu yn rhannol yng Ngogledd Cymru.

## **Nodiadau I'r Golygyddion**

### **Am Ganolfan Ffilm Cymru**

Mae Canolfan Ffilm Cymru yn dathgleu sinema. Rydym yn cefnogi cyrff sydd yn dangos ffilmiau o wyliau ffilm i gymdeithasu a chanolfannau celf cymysg. Gan weithio gyda dros [315 o arddangoswyr Cymreig](#), ein nod ydy cyflwyno'r ffilmiau Prydeinig a rhyngwladol gorau i gynulleidfaoedd ar draws Cymru a'r DU. Ers sefydlu Canolfan Ffilm Cymru yn 2013 rydym wedi cefnogi dros 250 o brosiectau sinema cyffrous gan gyrraedd dros 480,000 o aelodau cynulleidfa.

Rydym yn rhan o rwydwaith DU gyfan o wyth canolfan sydd yn ffurfio'r [Rhwydwaith Cynulleidfa Ffilm \(FAN\)](#) BF gyda chefnogaeth cyllid gan y Loteri Cenedlaethol. [Chapter](#) ydy 'Corff Arweiniol Canolfannau Ffilm yng Nghymru.

Rydym hefyd yn falch o arwain ar strategaeth [sinema cynhwysol](#) ar ran FAN BFI.

[Gwefan](#), [Twitter](#), [Facebook](#), [Instagram](#)

### **Am Rwydwaith Cynulleidfa Ffilm BFI**

Gyda chefnogaeth cyllid y Loteri Cenedlaethol, mae FAN BFI yn ganolog i nod y BFI o sicrhau bod y dewis mwyaf o ffilm ar gael i bawb. Wedi'i sefydlu yn 2012 i adeiladu cynulleidfaoedd sinema DU ehangach a mwy amrywiol i ffilmiau Prydeinig a rhyngwladol, mae FAN yn gydweithrediad DU gyfan, unigryw sydd yn cynnwys wyth o ganolfannau a reolir gan gyrff a lleoliadau ffilm amlwg wedi'u lleoli'n strategol o amgylch y wlad. Mae FAN hefyd yn cefnogi datblygiad talent gyda Swyddogion Talent Rhwydwaith BFI ym mhob un o'r canolfannau yn Lloegr, gyda chenhadaeth o ddarganfod a chefnogi awduron, cyfarwyddwyr a chyfarwyddwyr talentog ar ddechrau eu gyrfaedd.

Canolfannau Ffilm FAN BFI:

- Canolfan Ffilm y Midlands dan arweiniad Broadway, Nottingham yn gweithio mewn partneriaeth gyda Flatpack Birmingham
- Canolfan Ffilm Gogledd Lloegr dan arweiniad Showroom Workstation, Sheffield a HOME Manceinion
- Canolfan Ffilm De Ddwyrain Lloegr dan arweiniad Swyddfa Sinema Annibynnol
- Canolfan Ffilm De Orllewin Lloegr dan arweiniad Watershed ym Mryste
- Canolfan Ffilm yr Alban dan arweiniad Glasgow Film Theatre
- Canolfan Ffilm Gogledd Iwerddon dan arweiniad Queen's University Belfast
- Canolfan Ffilm Cymru dan arweiniad Chapter yng Nghaerdydd
- Canolfan Ffilm Llundain dan arweiniad Film London

[BFI FAN Gwefan](#)

### **Am BFI**

Rydym yn elusen diwylliannol, dosbarthydd y Loteri Cenedlaethol a chorff arweiniol y DU ar gyfer ffilm a'r ddelwedd symudol. Ein cenhadaeth ydy

Cefnogi creadigrwydd a chwilio am y genhedlaeth nesaf o adroddwyr straeon y DU

- Tyfu a gofalu am Archif Cenedlaethol BFI, archif ffilm a theledu mwyaf y byd
- Cynnig yr amrediad ehangaf o ddiwylliant delwedd symudol DU a rhyngwladol drwy ein rhaglenni a'n gwyliau – ar-lein ac mewn lleoliadau
- Defnyddio ein gwybodaeth i addysgu a dyfnhau gwerthfawrogiad a dealltwriaeth y cyhoedd
- Gweithio gyda Llywodraeth a diwydiant i sicrhau twf parhaol diwydiannau sgrin y DU

Wedi'i sefydlu ym 1933, mae'r BFI yn elusen cofrestredig a reolir gan Siarter Brenhinol.

Cadeirydd Bwrdd Llywodraethwyr BFI ydy Tim Richards.

### **Am Chapter**

Chapter ydy un o ganolfannau celfyddydau mwyaf, a mwyaf deinamig Ewrop gyda sinemau, theatrau, gofod arddangos, stiwdios a chaffi, bariau arobryn a dros 60 gofod gweithio diwylliannol a mwy.

Mae gan Chapter enw da rhyngwladol am ragoriaeth, arloesi a chydweithredu. Mae'n cynnig rhaglen newidiol barhaus o ffilmiau ac arddangosfeydd gorau o Gymru ac o amgylch y byd.

[Gwefan](#), [Facebook](#), [Twitter](#)